**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23.1.20**
**yn Neuadd Reichel, Bangor**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mr M Polin | Cadeirydd |
| Yr Athro N Callow | Aelod Annibynnol - Prifysgol |
| Cyng C Carlisle | Aelod Annibynnol |
| Mrs M Edwards | Aelod Cyswllt - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Mr G Evans | Cadeirydd, y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd |
| Dr D Fearnley | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol |
| Mrs S Green | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol |
| Mrs G Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr |
| Mrs S Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid |
| Mrs J Hughes | Aelod Annibynnol |
| Cyngh M Hughes | Aelod Annibynnol |
| Mr E Jones | Aelod Annibynnol |
| Mrs L Meadows | Aelod Annibynnol |
| Miss T Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| Mrs L Reid | Is-gadeirydd |
| Mrs L Jones | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| Mrs H Wilkinson | Aelod Annibynnol |
| Mr M Wilkinson | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad |
| Mr Ff Williams | Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ms D Carter, | Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau |
| Mrs K Dunn | Pennaeth Materion Corfforaethol (ar gyfer cofnodion) |
| Mrs K Thomas | Pennaeth Codi Arian |

Cyfieithydd, Aelodau’r Cyhoedd, Arsylwyr

| Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd | Gweithredu gan |
|---|---|
| **20/1 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**<br><br>**20/1.1** Dymuna Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gofnodi ei diolch i dimau cyllid a chodi arian am eu gwaith yn datblygu'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol. Teimla bod fformat ac ansawdd yr adroddiad blynyddol wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.<br><br>**20/1.2** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid bod cyfrifon blynyddol Cronfeydd Elusennol wedi cael eu craffu gan Bwyllgor Cronfeydd Elusennol yn unol â'r amserlen gofynnol. Fe amlygodd mai £2m oedd yr incwm ar | |

| | |
|---|---|
| gyfer 2019-20 gyda gwariant o £2.2m. Cafwyd enillion o fuddsoddiadau o £0.4m, gan roi cynnydd net o £0.2m mewn cronfeydd a oedd yn unol yn fras â blynyddoedd blaenorol. Awgrymodd y Pennaeth Codi Arian y bydd unrhyw gwestiynau penodol ar y cyfrifon yn cael eu derbyn drwy e-bost.<br><br>**20/1.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd**, fel Ymddiriedolwyr Corfforaethol yn derbyn Adroddiad Blynyddol Cronfeydd Elusennol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19. | |
| **20/2 Diweddariad Rheoleiddio a Chanllaw Elusen**<br><br>**20/2.1** Nododd y Pennaeth Codi Arian bod manylion am ddiweddariadau rheoleiddio ar gyfer canllaw elusen wedi ei ddarparu yn y papur. Nid oedd unrhyw gwestiynau ar y papur hwn<br><br>**20/2.2 Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn nodi'r adroddiad. | |
| **20/3 Rownd flynyddol o weithgaredd cefnogwyr 'Awyr Las' a Thrydydd Sector BIPBC.**<br><br>**20/3.1** Rhoddodd y Pennaeth Codi Arian gyflwyniad a oedd yn cynnwys:<br>• Grantiau Awyr Las - gan gynnwys y rhai dros £5 mil, grantiau'r calonnau a'r meddwl, grantiau MI FEDRAF, grantiau profiad staff a grantiau penodol eraill.<br>• Roedd blaenoriaethau'n cynnwys ceisiadau am grantiau bach, gofal canser, pobl hŷn, pobl iau ac MI FEDRAF.<br>• Digwyddiadau a gweithgareddau allweddol gan gynnwys Te Mawr y GIG, loteri staff ac adroddiad effaith 10 mlynedd.<br>• Cefnogaeth ar gyfer grwpiau'r trydydd sector ar draws Gogledd Cymru e.e grwpiau Cynghrair Cyfeillion.<br>• Prif amcan ar gyfer 2020 i wella proffil mewnol ac allanol Awyr Las.<br><br>**20/3.2** Gwahoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol unrhyw aelod o'r Bwrdd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i ddatblygu eu dealltwriaeth am faterion elusennol. Cytunwyd ar yr egwyddor. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid rhannu digwyddiadau o bwys i Gynghreiriau Cyfeillion ac elusennau eraill sy'n gweithio gyda BIPBC gydag aelodau'r bwrdd i annog presenoldeb. Byddai hyn yn cael ei weinyddu ar y cyd gyda swyddfa'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.<br><br>**20/3.3** Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gostyngiad mewn incwm ac a ddylai hyn beri pryder i'r Bwrdd fel Ymddiriedolwyr. Cadarnhaodd y Pennaeth Codi Arian fod y mater yn cael sylw drwy'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a bod tuedd genedlaethol o ran gostyngiad mewn rhoi cymynrodd. Nodwyd bod Awyr Las wedi datblygu strategaeth cymynrodd a'i bod yn cryfhau gwybodaeth marchnata. Yn ogystal, roedd y tîm codi arian yn gweithio gyda thimau rheoli'r ysbyty i gefnogi gwell gwelededd o amgylch Awyr Las. | KT<br><br>KT<br>KT |

| | |
|---|---|
| **20/3.4** Adroddodd y Pennaeth Codi Arian y byddai diweddariad misol yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd. Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd i ddiweddariad canol blwyddyn gael ei ddarparu mewn cyfarfod y Bwrdd ar y 4 maes blaenoriaeth ar gyfer Awyr Las. | |
| **20/4 Edrych ymlaen a Chwestiynau**<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Codi Arain y byddai Tîm Cefnogi Awyr Las yn parhau i adeiladau ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn i helpu i godi ymwybyddiaeth am yr elusen yn allanol yn ogystal ag yn fewnol. | |